CYNGOR CYMUNED
LLANBADRIG
COMMUNITY COUNCIL

# ADRODDIAD BLYNNYDDOL 2023-2024
# CYNGOR CYMUNED LLANBADRIG

Mae Cyngor Cymuned Llanbadrig yn ran o ward etholiadol Twrcelyn sydd yn cynnwys Cemaes, Llanbadrig a Thregele. Cemaes yw'r pentref mwyaf ogleddol Ynys Mon ac yn Adran Ddynodedig o Harddwch Naturiol.

Mae yna unarddeg o gynghorwyr yn cynrychioli Llanbadrig sydd a phoblogaeth o 1178 (census 2021).

**Pwyllgor Cyngor Llawn:** Carys Davies Cadeirydd, Derek Owen Is- Gadeirydd.
**Pwyllgor Cyllid:** Lowri Jones Cadeirydd, Enid Jones Is-Gadeirydd.
**Cynghorwyr Sir Ward Twrcelyn:** Aled Morris Jones, Derek Owen, Liz Woods.

Fe apwyntiwyd Clerc Newydd I'r Cyngor Cymuned ym mis Chwefror 2024

Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor Cymuned pob trydedd nos Fawrth o'r mis. Bydd y Pwyllgor Cyllid yn cyfarfod am 6.15yh ac yna y Pwyllgor Llawn yn dilyn am 7yh. Mae croeso I aelodau'r cyhoedd fynychu'r cyfarfodydd.

Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council,
Canolfan Treftadaeth Cemaes, 36 Stryd Fawr, Cemaes, Ynys Mon LL670HL
e-bost / e-mail: llanbadrig@live.co.uk

**Prif Ddyletswyddau y Cyngorwyr:**

- Rheoli a cynnal a chadw y mannau agored sef caeau chwarae, tir yn perthyn I'r Cyngor Cymuned yn Nant y Sgrwngi, Y Rhyd, Toiledau Cyhoeddus, Meinciau cof ac yn y blaen.
- Darpariaeth arwyddion pennodol y pentref
- Darpariaeth gwyliadwriaeth CCTV
- Darpariaeth a chymorth ariannol (grantiau, rhoddion) ar gyfer grwpiau cymunedol lleol a sefydliadau teilwng ymhellach I ffwrdd yng Nghymru e.e. Eisteddfod Mon, Ambiwlans Awyr.
- Gosod goleuadau nadolig y pentref.
- Darpariaeth bwrdd rhybudd y pentref.
- Darpariaeth o feinciau cof ar safleoedd neullteuol.

Mae gan Cyngor Cymuned Llanbadrig gynrychiolwyr ar nifer o gyrff I gyflwyno cysylltiadau ar gyfer y dyfodol I ddatblygu o fewn y gymuned.

Croesawyd mwy o fusnesau bach I Gemaes yn enwedig mewn amser o heriau ariannol.  Mae dau gaffi llwyddiannus ar y stryd fawr ac mae cynlluniau I agor parlwr hufen ia newydd erbyn tymor haf 2024, heb son am y busnesau sydd yn y pentref yn barod, sef Y Ganolfan Treftadaeth, siopau trin gwallt, tai tafarnau/bwytdai.

Mae grwpiau cymunedol “Cemaes in Bloom” a “Nature for All” yn brysur iawn yn gwneud gwaith di-ddiwedd o blannu blodau a'i cynnal a chadw yn daclus er mwyn harddwch y pentref I'r pobl leol ac ymwelwyr.

Mae'r Cyngor Cymuned ac Ysgol Gynradd Cemaes a pherthynas dda.  Bydd y staff a'r plant yn awyddus I helpu a bod yn ran o unrhwy ddathliadau a fydd yn cael ei gynnal yn y pentref.

Bydd y Cyngor Cymuned yn arfer eu cyfrifoldebau statudol ac ymgynghorol ac yn cymeryd rhan mewn materion sydd yn effeithio ar aeloau y gymuned ac yn cymeryd yr amser I wneud penderfyniadau sydd er lles gorau'r gymuned.

Mae'r Cyngor yn cefnogi llawer o grwpiau cymundedol lleol gan roi rhoddion ariannol a cheisio am grantiau er mwyn cynnal a chadw llwybrau, adeiladau, mannau agored ac yn y blaen.

**Crynodeb Ariannol**
Rhagwelwyd bydd gwariant cyllideb am y flwyddyn 2024/2025 yn £69,059.00 a'r gyllideb incwm yn £103,389.38

Dyma grynodeb o'r cyllideb gwariant mwyaf:

- Y Rhyd – costau gweinyddol, torri glastwell, cynlluniau ehangu- £65,000.00
- Cynnal a Chadw parciau a mannau agored, gofal y pentref, Bonc y Mor, bocsus blodau, meinciau, CCTV, gwariant gwirfodolwyr ayyb.
  £15,000.00
- Toiledau
  £10,000.00
- Rhent a Trethi – Maes Parcio y traethau, traeth, Canolfan Treftadaeth, defnydd o'r ystafell pwyllgor, llogi'r swyddfa, cadwy system CCTV, Maes Parcio'r Llyfrgell
  £7,500.00
- 10/12 Stryd Fawr
  £3,500.00
- Caeau Chwarae – rhent, torri gwair, arolygiad o'r offer
  £3,500.00
- Cyflog y Clerc
  £7,000.00

Bydd y Cyngor Cymuned yn ddarostyngedig I archwiliad mewnol ac allanol er mwyn dangos bod y cyllid cyhoeddus yn cael ei reoli yn briodol. Cafwyd archwiliad allanol ar gyfrifon 2022/2023.

Bydd Agenda, Cofnodion a Chyfrifon y Cyngor Cymuned I'w gweld ar wefan y Cyngor

Fe ellir cysylltu a'r Cyngor Cymuned drwy ebost sef:
Llanbadrig@live.co.uk